


Bil Deddfwriaeth (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Ebrill 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6291**
E-bost: Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: SeneddYmchwil.blog

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Senedd y Ymchwil

Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Crynodeb o'r Bil

Ebrill 2019

Awduron:
Alys Thomas ac Owen Holzinger



Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Y cefndir.....	2
3. Y Bil.....	4
3.1. Rhan 1: Hygyrchedd cyfraith Cymru	4
3.2. Rhan 2: Dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru	5
3.3. Rhan 3: Amrywiol.....	8
3.4. Rhan 4: Cyffredinol	9
4. Goblygiadau ariannol y Bil.....	10
4.1. Crynodeb	10
4.2. Manteision.....	10
4.3. Costau penodol - Rhan 1: Hygyrchedd cyfraith Cymru	11
4.4. Rhan 2 a 3: Dehongli a gweithredu cyfraith Cymru	12
4.5. Tabl 1: Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â Bil Deddfwriaeth (Cymru).....	13
5. Craffu.....	14

1. Cyflwyniad

Ar 2 Ebrill 2019, bydd dadl Cyfnod 1 ar Egwyddorion Cyffredinol **Bil Deddfwriaeth (Cymru)** ("y Bil") yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn. Y Cwnsler Cyffredinol yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Cyflwynwyd y Bil yn y Cynulliad ar 3 Rhagfyr 2018. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Mae'r pedair rhan i'r Bil:

- Mae rhan 1 yn gosod dyletswyddau ar y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â hygyrchedd cyfraith Cymru.
- Mae rhan 2 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch dehongli a gweithredu'r Bil ei hun a deddfwriaeth Cymru sy'n cael ei deddfu wedi i Ran 2 ddod i rym.
- Mae rhan 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau yn neddfwriaeth Cymru, drwy ddisodli dyddiad unwaith y bydd yn hysbys. Mae rhan 3 hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth mewn gwahanol ffurfiau (rheoliadau, rheolau a gorchmynion) ac yn darparu ar gyfer y cyfuniad o is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i wahanol weithdrefnau yn y Cynulliad, gan sicrhau bod y weithdrefn fwyaf llym yn gymwys.
- Mae rhan 4 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall a darpariaeth ynghylch pryd a sut y daw'r Bil i rym.

Mae'r **nodiau esboniadol i'r** Bil yn darparu diffiniadau o gydgrynhoi a chodeiddio.

Hefyd, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol ddogfen **Tacsonomeg Drafft ar gyfer Codau Cyfraith Cymru** a fwriedir i ddangos sut y gellid trefnu deddfwriaeth Cymru yn y rhan fwyaf o feysydd allweddol.

2. Y cefndir

Mae cefndir y Bil wedi cynnwys nifer o ymchwiliadau ac ymgynghoriadau, gan gynnwys yr adroddiad **Deddfu yng Nghymru gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad** (Hydref 2015). Roedd yn gwneud nifer o argymhellion yn ymwneud ag ansawdd deddfwriaeth, a'r broses o'i pharatoi a chraffu arni. Yn benodol, roedd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer **cydgrynhoi'r gyfraith yng Nghymru**, ac y dylai'r Cwnsler Cyffredinol weithio tuag at lunio **Deddf Dehongli Cymru** a fyddai ar wahân i **Ddeddf Dehongli 1978 Senedd y DU** ("Deddf 1978").

Yn 2016, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad, **Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru**. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru fynd ar drywydd **polisi o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith yng Nghymru**. Gwnaeth nifer o argymhellion yn ymwneud â'r broses o gydgrynhoi a chodeiddio, gan gynnwys y dylai fod yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno rhaglen godeiddio ac adrodd ar gynnydd i'r Cynulliad.

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith hefyd y dylai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad ystyried, a pharhau i adolygu, y manteision ymarferol a ddaw o gyflwyno Deddf Dehongli Cymru, a gwnaeth argymhellion pellach yn ymwneud ag ansawdd ac argaeledd deddfwriaeth, a'r broses o'i chyhoeddi.

Wedi hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori, **Dehongli deddfwriaeth Cymru: Ystyried Deddf ddehongli i Gymru**, ym mis Mehefin 2017. Roedd yn ceisio barn ynghylch manteision cael Deddf ddehongli ar wahân i Gymru ac ynghylch y dull gweithredu y dylai Deddf o'r fath ei fabwysiadu. Mewn **Datganiad Gweinidogol** ym mis Mehefin 2017, eglurodd y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd fod "deddfau dehongli yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion gweithdrefnol ac yn diffinio ymadroddion a ddefnyddir yn gyffredin mewn deddfwriaeth [...] Gall hyn helpu i ddatrys ansicrwydd ynghylch ystyr darpariaethau deddfwriaethol penodol." Eglurodd ymhellach fod deddfwriaeth Cymru ar hyn o bryd o dan gwmpas Deddf 1978, sef Deddf Senedd y DU sydd bron yn 40 oed. Felly, daeth i'r casgliad a ganlyn:

Mae angen diweddarau'r Ddeddf ac, yn bwysicach oll, nid yw'n cydnabod ein bod yn deddfu yn y Gymraeg a'r Saesneg [...] Rydw i o'r farn y dylem ddatblygu ein Deddf ddehongli ein hun - fel a wnaed eisoes yn yr Alban a Gogledd Iwerddon - sy'n ddwyieithog ac wedi'i theilwra at ein hawdurdodaeth.

Roedd ail ymgynghoriad, ynghylch **Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft**, yn ceisio barn ar y dull gweithredu yr oedd y Bil drafft yn ei fabwysiadu.

Cafodd yr ymatebion i'r ddau ymgynghoriad eu hystyried wrth ddatblygu'r Bil i'w gyflwyno.

3. Y Bil

3.1. Rhan 1: Hygyrchedd cyfraith Cymru

Mae adran 1 y Bil yn creu **dyletswydd i sicrhau bod hygyrchedd cyfraith Cymru yn parhau i gael ei adolygu**. Mae'r ddyletswydd hon ar y **Cwnsler Cyffredinol**. Mae'n debyg i'r rhwymedigaeth yn **Neddf Comisiwn y Gyfraith 1965** ar Gomisiwn y Gyfraith i barhau i adolygu'r gyfraith, a'i bwriad yw ategu'r rhwymedigaeth honno (nid ei disodli).

Mae Adran 1(2) yn darparu diffiniad o "gyfraith Cymru":

- Deddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tanynt;
- is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru, lle'r oedd ganddo bwerau gweithredol yn unig, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru; a deddfwriaeth arall neu reolau'r gyfraith gyffredin y gallai'r Cynulliad eu diwygio neu eu hail-ddeddfu.

Mae atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys diffiniadau o wahanol dermau a ddefnyddir yn adran 1(2), gan gynnwys "deddfiad", "is-ddeddfwriaeth" a "Cymru".

Mae adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i **Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddatblygu rhaglen o gamau gweithredu er mwyn gwella hygyrchedd cyfraith Cymru ar gyfer pob un o dymhorau'r Cynulliad**. Dylai pob rhaglen wneud darpariaeth ar gyfer mesurau a fwriedir **i gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cynnal cyfraith wedi'i chodeiddio a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg**.

Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn darparu diffiniadau o gydgrynhoi a chodeiddio. Maent yn nodi bod **cydgrynhoi'r gyfraith** yn gyffredinol yn golygu dod â'r holl ddeddfwriaeth ar bwnc penodol at ei gilydd, gan fynd ati'n well i ymgorffori gwelliannau a wnaed i ddeddfwriaeth ar ôl iddi gael ei deddfu a moderneiddio'r iaith, yr arddull drafftio a'r strwythur. Mae'n dod i'r casgliad:

Yng Nghymru, bydd cydgrynhoi'r gyfraith yn golygu gan amlaf ailddeddfu cyfreithiau a wnaed gan Senedd y Deyrnas Unedig yn flaenorol, a gwneud hyn yn ddwyieithog.

Pwrpas codeiddio'r gyfraith yw dod â threfn i'r llyfr statud. Bydd hyn yn cynnwys "trefnu a chyhoeddi'r gyfraith drwy gyfeirio at ei chynnwys... Bydd y system honno'n cadw strwythur y gyfraith honno yn hytrach nag amlhau'r cyfeiriadau ati".

Mae adran 2(3) yn ei gwneud yn ofynnol bod pob rhaglen weithredu sydd wedi'i chynllunio i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn cynnwys gweithgareddau er mwyn **hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg** yn y gyfraith, mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, ac yn fwy cyffredinol.

Mae adran 2(4) yn darparu y gall pob rhaglen hefyd gynnwys cynigion **i hyrwyddo cyfraith Cymru**, er enghraifft drwy godi ymwybyddiaeth o newidiadau sylweddol yn y gyfraith neu fodolaeth cyfraith Cymru yn fwy cyffredinol.

Mae adran 2(5) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaglen yn cael ei gosod **gerbron y Cynulliad o fewn chwe mis ar ôl penodi'r Prif Weinidog yn dilyn etholiad cyffredinol**. Bwriad hyn yw sicrhau bod modd gwneud pob llywodraeth yn atebol am yr hyn y mae ei rhaglen yn ei gyflawni dros dymor y Cynulliad.

Mae adran 2(7) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol adrodd yn achlysurol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y cynnydd a wnaed o dan y rhaglen.

Mewn **Datganiad Llafar**, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod Rhan 1 o'r Bil yn "arloesol" wrth geisio "gosod seilwaith a fydd yn ymrwymo Llywodraethau'r dyfodol i gadw hygyrchedd y gyfraith o dan adolygiad, ac i gymryd camau i'w gwneud yn fwy hygyrch". Aeth ymlaen i ddweud:

Y nod tymor hir yw creu llyfr statud trefnus i Gymru sy'n categoreiddio'r gyfraith mewn i godau ar bynciau penodol, a hyn yn hytrach na dim ond cyfeirio at y dyddiad pan wnaethpwyd y ddeddfwriaeth. Mae'r Bil, felly, yn gosod dyletswyddau ar y Llywodraeth gan fod maint a natur y dasg yn golygu bod yn rhaid ymrwymo i'r gwaith yn systematig a dros y tymor hir. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyd-grynhoi'r gyfraith a'r gwaith arall sy'n gysylltiedig â gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch fod yn un o flaenoriaethau pob llywodraeth.

3.2. Rhan 2: Dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru

Mae rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch **dehongli a gweithredu deddfwriaeth** a wneir gan y Cynulliad neu o dan bwerau y mae wedi'u rhoi, ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill Cymru.

Ar hyn o bryd, Deddf 1978 sy'n ymdrin â dehongli a gweithredu deddfwriaeth o'r mathau hyn. **Bydd Deddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys i ddeddfwriaeth a wneir cyn i ran 2 ddod i rym**. Bydd rhan 2 yn gymwys i ddeddfwriaeth a wneir ar ôl i hyn ddod i rym yn unig (ac i'r Bil ei hun).

Yn y **Cyfarfod Llawn** ar 4 Rhagfyr 2018, eglurodd y Cwnsler Cyffredinol:

mae rhan 2 o'r Bil yn dilyn yr hen draddodiad a sefydlwyd gan Senedd y DU yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan gafodd Deddf ddehongli ei phasio am y tro cyntaf. Dehongliad statudol yw'r broses o benderfynu ar ystyr ac effaith deddfwriaeth a sut mae hi'n gweithredu.

Mae adran 3(1) o'r Bil yn pennu'r ddeddfwriaeth y mae rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi. Mae rhan 2 yn gymwys i'r Bil ei hun, i Ddeddfau'r Cynulliad sy'n cael Cydsyniad Brenhinol wedi i Ran 2 ddod i rym yn llawn, ac i is-offerynnau Cymru a wneir wedi i Ran 2 ddod i rym yn llawn.

Mae'r darpariaethau yn rhan 2 o'r Bil yn darparu set o ragdybiaethau ynghylch yr ystyron a'r effeithiau y bwriedir i Ddeddfau'r Cynulliad ac offerynnau statudol Cymru eu cael. Mae adran 4 y Bil yn gwneud **darpariaeth ynghylch gweithredu'r rheolau yn rhan 2 o'r Bil mewn perthynas â Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymru penodol**.

Mae adrannau 5 i 11 yn ymdrin ag **ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn neddfwriaeth Cymru**. Mae adran 5 yn cyflwyno atodlen 1, sy'n cynnwys tabl o eiriau ac ymadroddion. Y termau a restrir yn atodlen 1 yw'r rhai y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn neddfwriaeth Cymru ac i fod ag ystyr gyson.

Mae atodlen 1 yn cynnwys diffiniadau o'r canlynol:

- termau sy'n ymwneud â deddfwriaeth (e.e. "Deddf y Cynulliad", "deddfiad" ac "is-ddeddfwriaeth");
- termau sy'n ymwneud â llywodraeth ganolog a chyrff cyhoeddus (e.e. "Gweinidogion Cymru", "Cyfoeth Naturiol Cymru" a "Gweinidog y Goron");
- termau sy'n ymwneud â throseddau a llysoedd (e.e. "trosedd ddiannod", "llys sirol" ac "Uchel Lys");
- termau sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd a Brexit (e.e. "offeryn yr UE", "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir" ac "Aelod-wladwriaeth");
- termau cyfreithiol sylfaenol eraill (e.e. "tir", "person", "Cymru", "ysgrifennu" a "diwrnod gwaith").

Mae adrannau 12 a 13 yn ymwneud â **chyflwyno dogfennau drwy'r post neu yn electronig**. Mae "cyflwyno" yn y cyd-destun hwn yn disgrifio'r broses o anfon dogfennau at barti mewn achos llys. Mae'n gymwys yn unig pan fydd un o Ddeddfau'r Cynulliad neu is-offeryn Cymru yn darparu ar gyfer cyflwyno drwy'r naill neu'r llall o'r dulliau hynny, neu'r ddau ohonynt. Mater i Ddeddfau ac offerynnau unigol yw penderfynu a ganiateir y dulliau cyflwyno hynny, neu unrhyw rai eraill, mewn cyd-destunau penodol.

Mae adrannau 14 i 19 yn ymwneud â **phwerau a dyletswyddau**. Mae adran 14 yn darparu bod pwerau a roddir ar berson, a dyletswyddau a osodir ar berson, yn rhai parhaus, ac y gellir eu harfer o bryd i'w gilydd ac yn ôl yr angen. Mae'n gymwys i'r holl bwerau a dyletswyddau a roddir neu a osodir gan Ddeddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymru y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt, gan gynnwys pwerau a dyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth.

Mae adrannau 20 i 24 yn ymdrin â chyfeiriadau yn neddfwriaeth Cymru at ddeddfwriaeth a dogfennau eraill.

Mae adran 25 yn ymdrin â throseddau dyblyg sy'n gymwys lle mae ymddygiad yn dramgwydd o dan ddwy neu fwy o Ddeddfau neu offerynnau gwahanol y mae rhan 2 yn gymwys iddynt, neu'n dramgwydd o dan un neu fwy o Ddeddfau neu offerynnau y mae rhan 2 yn gymwys iddynt yn ogystal â'r gyfraith gyffredin. Effaith yr adran yw bod modd erlyn a chosbi person y mae ei ymddygiad yn drosedd o dan unrhyw un o'r deddfau dan sylw. Fodd bynnag, mae adran 25 yn ei gwneud yn glir mai dim ond unwaith y gellir cosbi'r person am y tramgwydd.

Mae adran 26 yn ymdrin â chymhwyso i'r Goron. Y rheol bresennol o ran y gyfraith gyffredin yw nad yw Deddfau ac is-ddeddfwriaeth yn rhwymo'r Goron oni bai:

- bod y Ddeddf yn darparu'n benodol ei bod yn rhwymo'r Goron;
- bod y Goron wedi'i rhwymo drwy oblygiad angenrheidiol (er nad yw'n gwbl sicr beth yw "goblygiad angenrheidiol" at ddibenion y rheol); neu
- bod eithriadau eraill i'r rheol yn gymwys (er enghraifft, os yw'r Goron yn ymglyfreithiwr mewn achos sifil, mae'n dilyn o Ddeddf Achosion y Goron 1947 y bydd y Goron yn cael ei rhwymo gan yr holl statudau perthnasol sy'n ymwneud ag achosion sifil).

Mae hyn yn golygu, yn absenoldeb darpariaeth benodol sy'n rhwymo'r Goron, fod angen ystyried y cwestiwn a yw Deddf yn rhwymo'r Goron drwy edrych ar y rheol a'i therfynau, ac yna penderfynu a yw natur, cyd-destun a chynnwys y Ddeddf dan sylw yn golygu bod yn rhaid bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi golygu bod y Goron yn cael ei rhwymo.

Mae adran 26(1) yn disodli rheol y gyfraith gyffredin â rheol statudol. Mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad y mae rhan 2 yn gymwys iddynt, **mae'n gwrthdroi safbwynt y gyfraith gyffredin fel mai'r rheol yw bod Deddf y Cynulliad yn rhwymo'r Goron.**

Mae adrannau 27 i 29 yn cyfeirio at **ddeddfwriaeth yn dod i rym** ac mae adrannau 30 i 35 yn ymdrin â **diwygio, diddymu a dirymu deddfwriaeth.**

3.3. Rhan 3: Amrywiol

Mae adrannau 39 i 37 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau ac amseroedd yn neddfwriaeth Cymru; i wneud is-ddeddfwriaeth ar wahanol ffurfiau ac i gyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau'r Cynulliad.

Mae adran 36(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth Cymru sy'n cynnwys disgrifiad o ddyddiad neu amser, drwy fewnosod cyfeiriad at yr union ddyddiad neu amser pan fydd yn hysbys. Mae'r pŵer ar gael lle mae dyddiad neu amser yn cael ei ddisgrifio drwy gyfeirio at ddeddfiad yn dod i rym neu unrhyw ddigwyddiad arall. Er enghraifft, os yw Deddf y Cynulliad yn cyfeirio at bethau a wneir ar "y diwrnod y daw adran 10 i rym" neu wedi hynny, a bod adran 10 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2018, gellid diwygio'r Ddeddf i gyfeirio at bethau a wneir ar "1 Ionawr 2018" neu wedi hynny.

Diben y pŵer yw gwneud deddfwriaeth yn symlach ac yn fwy hygyrch. Bydd rheoliadau o dan adran 36(1) yn golygu y bydd pobl sy'n darllen testun cyfredol y ddeddfwriaeth yn gallu deall cyfeiriadau at ddyddiadau neu amseroedd heb orfod cyfeirio at ddeddfwriaeth neu ddogfennau eraill (fel gorchmynion cychwyn).

Mae adran 37 yn galluogi Gweinidogion Cymru i arfer pwerau i wneud rheoliadau, rheolau neu orchmynion drwy wneud unrhyw un arall o'r mathau hynny o is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, yn lle hynny gellid arfer pŵer i wneud gorchmynion i wneud rheoliadau.

Bwriad adran 37 yw unioni'r sefyllfa lle mae angen gwneud nifer o wahanol reoliadau, rheolau neu orchmynion i ddod ag un polisi i rym. Mae'n gymwys yn achos is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol, a'i diben yw galluogi cyfuno gwahanol fathau o is-ddeddfwriaeth yn yr un offeryn. Yn ogystal â bod yn weinyddol gyfleus, gall gwneud un offeryn statudol hefyd alluogi'r ddeddfwriaeth i adrodd ei stori mewn ffordd fwy eglur.

Mae adran 38 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chyfuno is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru mewn un offeryn statudol gan ddefnyddio gwahanol bwerau y mae gwahanol weithdrefnau'r Cynulliad yn gymwys iddynt. Mae'n sicrhau bod yr offeryn yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau mwyaf llym a fyddai fel arall yn gymwys. Er enghraifft, os yw offeryn statudol yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n arwain at y weithdrefn gadarnhaol a rhai darpariaethau a fyddai'n arwain at y weithdrefn negyddol, mae'r adran hon yn golygu bod y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r offeryn cyfan.

3.4. Rhan 4: Cyffredinol

Mae adrannau 39 i 43 yn gwneud **darpariaethau cyffredinol**. Mae adran 39 ac atodlen 2 yn darparu ar gyfer diwygio Deddf 1978, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Mae adran 42 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd a sut y daw'r Bil i rym.

4. Goblygiadau ariannol y Bil

4.1. Crynodeb

Mae cost gyffredinol y Bil o fewn yr ystod o £2.962 miliwn i £2.984 miliwn

(Gwerth presennol: £2.498 miliwn i £2.517 miliwn). Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlinellu costau trosiannol rhwng £20,000 a £42,000 a chostau rheolaidd o £2.942 miliwn. Gwerthuswyd y costau dros bum mlynedd.

Nid oes unrhyw arbedion wedi'u meintioli sy'n gysylltiedig â'r Bil ac nid oes unrhyw fanteision neu anfanteision ariannol eraill wedi'u costio.

Mae costau'n gysylltiedig â'r canlynol:

- Datblygu rhaglen hygyrchedd ac adrodd arni
- Cyflawni'r rhaglen hygyrchedd
- Datblygu darpariaethau dehongli pwrpasol ar gyfer Cymru

Nodir mai Llywodraeth Cymru sy'n ysgwyddo'r holl gostau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

4.2. Manteision

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn awgrymu y gallai'r Bil gynnig manteision sylweddol i'r sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru ac i ddinasyddion preifat drwy "ddileu'r rhwystrau i ddefnyddio'r gyfraith yn effeithlon ac yn effeithiol". Nid yw'r manteision wedi cael eu meintioli.

Roedd **adroddiad Comisiwn y Gyfraith ynghylch Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru** yn cynnwys **Asesiad Effaith** a oedd yn awgrymu y gellid sicrhau manteision o £23.75 miliwn y flwyddyn (amcangyfrif gorau) drwy gyflwyno deddfwriaeth debyg i'r Bil. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi'r canlynol:

Amcangyfrifodd Comisiwn y Gyfraith y gallai'r manteision sy'n deillio o weithredu eu hargymhellion fod tua £24 miliwn y flwyddyn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio cadarnhau'r dadansoddiad hwn, ac nid yw'n cymhwyso'r ffigur hwn fel rhan o'i dadansoddiad ei hun o'r manteision yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Ond mae'r ffigur hwn, o leiaf, yn feintoliad ariannol o'r amser y gellid ei arbed ac mae'n fynegiant, o leiaf, o'r graddau y gellid defnyddio adnoddau i wneud pethau eraill.

Yn ystod **sesiwn graffu gyda'r Pwyllgor Cyllid ar 17 Ionawr 2019**, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod, er mwyn mesur costau a manteision y Bil, wedi defnyddio Asesiad Effaith Comisiwn y Gyfraith fel man cychwyn. Nododd mai'r prif elfennau sy'n llywio'r Bil yw cyfiawnder cymdeithasol a sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gyfraith, yn enwedig mewn cyd-destun lle mae cymorth cyfreithiol yn cael ei dorri.

4.3. Costau penodol - Rhan 1: Hygyrchedd cyfraith Cymru

Mae'r costau yn y rhan hon o'r Bil yn gysylltiedig â datblygu pob rhaglen a gweithredu'r rhaglen/rhaglenni hynny.

Y costau mwyaf sylweddol sy'n gysylltiedig â'r Bil yw'r costau parhaus sy'n gysylltiedig â chyflawni'r rhaglen hygyrchedd (£588,000 y flwyddyn, a £2.942 miliwn dros bum mlynedd).

Mae'r gost flynyddol yn cynnwys:

- Adnodd drafftio (cyfwerth â phedwar cwnsler deddfwriaethol). Byddai'r tîm hwn yn cyflwyno bil cydgrynhoi tua unwaith y flwyddyn - £377,000
- Adnodd cyfieithu (cyfwerth â dau gyfieithydd deddfwriaethol) - £93,000
- Un swydd Band Rheoli 2 a dwy swydd Band Rheoli 3 i gyflawni'r rhaglen - £119,000

Er bod y wybodaeth gryno yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu pob rhaglen (£15,000 i £37,000) fel rhai 'trosiannol', maent yn cael eu hailadrodd ym mhob un o dymhorau'r Cynulliad. Mae'r costau'n cynnwys:

- **Paratoi a gosod rhaglen ar gyfer tymor y Cynulliad (£12,000):** gan gynnwys nodi a dethol gweithgareddau i'w cynnwys yn y rhaglenni drafft (£4,500), drafftio'r rhaglen ddrafft (£3,000), ymgynghori a dadansoddi'r ymatebion (£1,500), a pharatoi a chyhoeddi rhaglenni terfynol (£3,000).
- **Paratoi adroddiad ar gynnydd o dan y rhaglen (£3,000 - £9,000):** unwaith y caiff y rhaglen ei gosod, mae'r darpariaethau o dan y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol adrodd ar gynnydd i'r Cynulliad o dro i dro, o bosibl hyd at dair gwaith bob tymor Cynulliad.

- **Paratoi rhaglen ddiwygiedig (£0 - £16,000):** gan y byddai llawer o'r gweithgareddau yr un fath â'r rhai sydd eu hangen i baratoi'r rhaglen i ddechrau, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y byddai'r gost yn ddwy ran o dair o'r gost honno (£8,000). Mae'n debygol na fyddai rhaglen yn cael ei diwygio fwy na dwywaith yn ystod y cyfnod gwerthuso (felly mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu ei bod yn debygol o fod o fewn yr ystod £0 - £8,000)

4.4. Rhan 2 a 3: Dehongli a gweithredu cyfraith Cymru

Mae'r Bil yn bwriadu datblygu darpariaethau dehongli dwyieithog a modern newydd a fydd yn gymwys i gyfraith Cymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi dau weithgaredd yn hyn o beth:

- **Paratoi a chyflwyno canllawiau:** datblygu a chyhoeddi canllawiau anstatudol ar gyfer drafftwy'r is-ddeddfwriaeth, i gyd-fynd â'r darpariaethau dehongli yn dod i rym (a fwriedir ar gyfer 1 Ionawr 2020). Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau o £5,000 yn 2019-20 (wedi'u hamsugno o fewn yr adnoddau presennol).
- **Hysbysu'r rhai sy'n gweinyddu'r gyfraith am y newidiadau:** mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd angen i Lywodraeth Cymru hysbysu rhanddeiliaid a defnyddwyr am y newidiadau y mae'r Bil yn eu hachosi. Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd rhai cyrff yn cael eu hysbysu ac y gall rhai o'r cyrff hynny ddewis darparu hyfforddiant neu wybodaeth arall am y ddeddfwriaeth, nid oes unrhyw gostau wedi'u cofnodi yn erbyn y gweithgaredd hwn.

4.5. Tabl 1: Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Gweithgaredd	Cost (un flwyddyn)	Cost dros y cyfnod arfarnu (5 mlynedd)
Cyflawni rhaglen hygyrchedd		
Adnodd drafftio (4 x cwmsler deddfwriaethol).	£376,900	£1,884,500
Adnodd cyfieithu (2 x cyfieithydd deddfwriaethol)	£93,000	£465,000
Adnodd i gyflawni'r rhaglen (1 x MB2, 2 x MB3)	£118,500	£592,500
Cyfanswm y gost barhaus	£588,400	£2,942,000
Datblygu rhaglen hygyrchedd ac adrodd arni		
Adnabod a dethol gweithgareddau i'w cynnwys yn y rhaglen ddrafft	£4,500	£4,500
Drafftio'r rhaglen ddrafft	£3,000	£3,000
Cyhoeddi'r rhaglenni ar gyfer ymgynghori a dadansoddi'r ymatebion	£1,500	£1,500
Paratoi a chyhoeddi'r rhaglen derfynol	£3,000	£3,000
Paratoi adroddiad ar gynnydd o dan y rhaglen ¹	£3,000 - £9,000	£3,000 - £9,000
Paratoi rhaglen ddiwygiedig ²	£0 - £16,000	£0 - £16,000
Cyfanswm (fesul tymor y Cynulliad)	£15,000 - £37,000	£15,000 - £37,000
Datblygu darpariaethau dehongli pwrpasol ar gyfer Cymru		
Paratoi a chyflwyno canllawiau	£5,000	£5,000
Cyfanswm (trosiannol untro)	£5,000	£5,000
Cyfanswm cost y Bil		£2,962,000 - £2,984,000

¹Ystod = isel: unwaith bob tymor Cynulliad, uchel: ddwywaith bob tymor Cynulliad

²Ystod = isel: dim diwygio yn ystod tymor y Cynulliad, uchel: ddwywaith bob tymor Cynulliad

Ffynhonnell: [Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru - Bil Deddfwriaeth \(Cymru\)](#)

5. Craffu

Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil i'r **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor)**, ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol, fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, gerbron y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr 2018 ac ar 18 Chwefror 2019. Cymerwyd tystiolaeth gan randdeiliaid, gan gynnwys Comisiwn y Gyfraith, Cyngor ar Bopeth Cymru, Clinig y Gyfraith Abertawe, academyddion a chynrychiolwyr o'r proffesiwn cyfreithiol ar 14 a 28 Ionawr 2019.

Cynhaliodd y Pwyllgor **ymgyngoriad cyhoeddus** a ddaeth i ben ar 21 Ionawr 2019. Cafodd y Pwyllgor 12 o ymatebion fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw. Hefyd, fe wnaeth Tîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol gyfwrdd nifer o randdeiliaid, ac mae fideos o'r cyfweiliadau hynny ar gael ar **wefan** y Cynulliad.

Cyhoeddwyd **adroddiad Cyfnod 1** y Pwyllgor ar 26 Mawrth 2019. Roedd yr adroddiad hwn yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Deddfwriaeth (Cymru).

Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor argymhellion eraill yn ymwneud â gweithredu a monitro'r ddeddfwriaeth. Roedd yn argymhell y dylai'r Cwnsler Cyffredinol egluro sut y mae'n bwriadu gwneud mesurau anneddfwriaethol yn rhan ganolog o wella hygyrchedd cyfraith Cymru, gan gynnwys:

- nodi pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda sylwebyddion cyfreithiol posibl, a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan sylwebyddion cyfreithiol o'r fath;
- sut mae'n credu y gellir datblygu arbenigedd yn y Gymraeg;
- sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i addysgu'r cyhoedd fel eu bod yn gwybod beth yw eu hawliau a'u rhwymedigaethau o dan gyfraith Cymru.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r Cwnsler Cyffredinol ymrwymo i adolygu'r ddeddfwriaeth hanner ffordd drwy dymor cyntaf y Cynulliad wedi i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, h.y. erbyn diwedd 2023, ac y dylai, yn ystod y ddadl Cyfnod 1, roi eglurhad o'r hyn a olygir gan "hygyrchedd cyfraith Cymru".

Gwnaed nifer o argymhellion yn awgrymu gwelliannau i'r Bil. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid diwygio'r Bil fel ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol weithredu rhaglen hygyrchedd a baratoir yn unol ag adran 2. Yn ogystal, argymhellodd y Pwyllgor y dylid diwygio'r Bil fel bod gweithgareddau arfaethedig y bwriedir iddynt hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru yn cael eu cynnwys fel dyletswydd o dan adran 2(3) yn hytrach na bod yn ddewisol o dan adran 2(4), ac y dylid diwygio adran 2(7) fel ei bod yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn flynyddol ar y cynnydd a wneir o dan raglen adran 2(2).

Yr argymhellion eraill a wnaed oedd y dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyhoeddi datganiad yn egluro ei gynigion a'i fwiadau ar gyfer codeiddio cyfraith Cymru ac y dylai'r Pwyllgor Busnes geisio barn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wrth iddo baratoi Rheolau Sefydlog newydd ar gyfer Biliau cydgrynhoi, codeiddio a Biliau diwygio'r gyfraith.

Gwnaeth y Pwyllgor 14 argymhelliad i gyd. Mae disgwyl i'r Cwnsler Cyffredinol ymateb i'r argymhellion hynny yn ystod dadl Cyfnod 1.

Os cytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd y Bil yn symud i Gyfnod 2 (trafodion diwygio yn y Pwyllgor).

Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid waith craffu ar oblygiadau ariannol y Bil ar 17 Ionawr 2019 a chyhoeddodd ei **adroddiad ar y Bil** ar 26 Mawrth 2019. Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid bedwar argymhelliad i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys o ran costio a dadansoddi unrhyw arbedion effeithlonrwydd y gellid eu sicrhau drwy'r Bil. Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid argymhellion ynglŷn â gweithgarwch adolygu costau, er mwyn i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth bellach am y goblygiadau i staff polisi nad ydynt wedi'u costio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth bellach am sut y mae'n bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r Bil.

Hefyd, daeth y Pwyllgor Cyllid i un casgliad yn ei adroddiad, gan nodi ei fod yn pryderu ynghylch amseru'r Bil ac ymrwymo adnoddau i gyflawni amcanion y Bil yng nghyd-destun yr ansicrwydd o amgylch Brexit a'r adnoddau sydd eu hangen. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn derbyn y byddai gweithredu'r Bil yn fuddiol wrth ystyried unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn sgil Brexit.